Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

29 Mehefin/June, 2017

At : Aelodau Cygor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**<u>CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</u>**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ar **<u>ddydd Iau, 6 Gorffennaf 2017 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 3.30 o'r gloch y.p., neu yn syth ar ôl y Cyngor Sir Arbennig,</u>** i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Dr Gwynne Jones*
**<u>YSGRIFENNYDD</u>**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**<u>MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST</u>**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **<u>Thursday, 6 July, 2017 at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 3.30 p.m., or on the rising of the Special Meeting of the County Council,</u>** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Dr Gwynne Jones*
**<u>SECRETARY</u>**


**Ysgrifennydd/Secretary :** Dr. Gwynne Jones **Trysorydd/Treasurer :** Mr. Marc Jones

**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

# R H A G L E N

**1** **<u>ETHOL CADEIRYDD</u>**

Ethol Cadeirydd.

**2** **<u>ETHOL IS GADEIRYDD</u>**

Ethol Is-Gadeirydd.

**3** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**4** **<u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 18 Ebrill, 2017.

**5** **<u>PENODI SWYDDOGION AC AELODAU I BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH</u>** (Tudalennau 5 - 6)

Cyflwyno adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â'r uchod.

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Victor Hughes (Cadeirydd)<br>T Ll Hughes MBE (Is-Gadeirydd)<br><br>Lewis Davies, Jim Evans, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, H E Jones, Richard Owain Jones, R. Meirion Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | John Griffith, K P Hughes, Vaughan Hughes, G O Jones, P S Rogers a Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

Dywedodd y Cadeirydd mai hwn fydd ei gyfarfod olaf fel Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Roedd yn dymuno diolch i'r Is-Gadeirydd, Mr T. Ll. Hughes MBE a'r Is-Gadeirydd blaenorol, Mr Aled Morris Jones, am eu cefnogaeth. Diolchodd i Aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol am eu hyder ynddo fel Cadeirydd. Roedd yn dymuno diolch i'r Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd blaenorol, Mr Richard Parry Jones, yn ogystal â'r Trysorydd a'i staff, ac i'r aelodau staff sydd wedi gwasanaethu a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf.

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd y datganiadau o ddiddordeb canlynol :-

Datganodd Mr. Alwyn Rowlands ddiddordeb mewn perthynas ag unrhyw drafodaeth yn ymwneud â'r cais gan Ganolfan Hamdden Biwmares a'r Cylch o dan Eitem 3 - Cofnodion y Pwyllgor Adfywio.

Datganodd Mr. T. V. Hughes ddiddordeb mewn perthynas ag unrhyw drafodaeth yn ymwneud â'r cais gan Gwmni Tref Llangefni o dan Eitem 3 – Cofnodion y Pwyllgor Adfywio.

Datganodd Mr. T. Ll. Hughes ddiddordeb mewn perthynas ag unrhyw drafodaeth yn ymwneud â'r cais gan Gyngor Tref Caergybi o dan Eitem 3 – Cofnodion y Pwyllgor Adfywio.

Datganodd Mr. Ieuan Williams ddiddordeb mewn perthynas ag unrhyw drafodaeth yn ymwneud â'r cais gan Gyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf o dan Eitem 3 – Cofnodion y Pwyllgor Adfywio.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2017.

**3 ADRODDIADAU AR IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL**

**Pwyllgor Adfywio**

Cadarnhawyd a mabwysiadwyd, yn ôl y gofyn, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2017.

Dywedodd y Trysorydd bod angen i'r Ymddiriedolaeth lawn gadarnhau argymhelliad y Pwyllgor Adfywio i gefnogi 12 o geisiadau grant ond bod yr wybodaeth yn parhau i fod yn gyfrinachol nes bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud penderfyniad terfynol.

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd ac i fabwysiadu'r isod:**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A (Categori 16) y Ddeddf honno."**

Adroddodd y Trysorydd fod cyfanswm o 31 o geisiadau wedi eu derbyn, gwerth dros £1.6m. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Adfywio ar 10 Chwefror 2017 a 24 Chwefror 2017 i drafod y ceisiadau hynny.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Adfywio a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2017 fel a ganlyn :-**

- **PROSIECTAU A GYMERADWYWYD**

| | **Ymgeisydd** | **Prosiect** | **Swm a Gymeradwywyd (£)** |
|---|---|---|---|
| **1** | Rheilffordd Ganolog Môn Cyf | Ail agor y lein rheilffordd o Gaerwen i Amlwch. | 25,000.00 |
| **2** | Canolfan Hamdden Biwmares | Costau rhedeg y ganolfan am 12 mis ac ehangu'r cyfleusterau a'r gweithgareddau. | 45,000.00 |
| **3** | Canolfan Ucheldre | Costau rhedeg y ganolfan am 12 mis. | 30,000.00 |
| **4** | Cwmni Tref Llangefni | Ailddatblygu hen adeilad yr Orsaf Rheilffordd. | 25,000.00 |
| **5** | Cyngor Cymuned Llanfair ME | System CCTV newydd. | 10,000.00 |
| **6** | Clwb Bocsio Caergybi | Estyniad ac adnewyddu'r cyfleusterau. | 20,000.00 |
| **7** | Cadetiaid Môr Caergybi | Ail-doi'r Byncws. | 20,000.00 |
| **8** | Cyngor Tref Caergybi | Ailddatblygu Parc Caergybi ac ehangu Sinema'r Empire. | 50,000.00 |
| **9** | Neuadd Bentref Llanddona | Datblygu Neuadd Bentref newydd | 45,000.00 |
| **10** | Medrwn Môn | Costau rhedeg i gefnogi'r Prosiect Adeiladu Cymunedau. | 25,000.00 |
| **11** | Cymunedau'n Gyntaf Môn | Datblygu Hyb Gwaith a Hyfforddiant. | 35,000.00 |
| **12** | Mind Ynys Môn a Gwynedd | Costau rhedeg am 12 mis. | 20,000.00 |
| | | **Cyfanswm** | **350,000.00** |

- **Nodwyd y canlynol :-**

  **Ni chymeradwywyd 9 o geisiadau a hysbyswyd y sefydliadau unigol.**
  **Cyfeiriwyd 8 cais i'r Pwyllgor Grantiau Bach.**
  **Barnwyd bod 2 gais yn anghymwys.**

**4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A (Categori 16) y Ddeddf honno."**

**5 ADOLYGIAD O LYWODRETHIANT YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol bod Brown Jacobson LLP angen ychydig o fanylion pellach gan Aelodau'r Ymddiriedolaeth cyn cyflwyno cais i gofrestru'r Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) gyda'r Comisiwn Elusennau.

**PENDERFYNWYD bod Aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn cyflwyno'r manylion sydd eu hangen ar Browne Jacobson LLP, fel y nodwyd uchod.**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn pryderu mai dim ond 2 Ymddiriedolwr Annibynnol fydd ar Sefydliad Elusennol Ynys Môn. Nododd ei fod o'r farn y dylai'r Sefydliad Elusennol ystyried cynyddu nifer yr ymddiriedolwyr annibynnol yn y dyfodol.

**Mr. T. Victor Hughes**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN |
| DYDDIAD: | 6 GORFFENNAF, 2017 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | PENODI SWYDDOGION AC AELODAU I BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH |
| ADRODDIAD GAN: | YSGRIFENNYDD YR YMDDIRIEDOLAETH |
| GWEITHREDU: | Gofynnir i'r Aelodau'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys yr adroddiad a phenderfynu ar yr argymhellion. |

**PENODI SWYDDOGION AC AELODAU I BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH**

1. Cyngor Sir Ynys Môn yw Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn gweithredu drwy ei aelodau. Pan yn gweithredu fel Ymddiriedolwr maent yn gwneud hynny yn gwbl ar wahân i'r Cyngor.

   Yn dilyn Etholiadau'r Cyngor ym Mai 2017 mae angen penodi aelodau i weithredu fel swyddogion i'r Ymddiriedolaeth yn ogystal â phenderfynu ar y strwythur o bwyllgorau, a phenodi yn eu tro aelodau i'r pwyllgorau hynny. Mae'r materion hyn yn fater i'w benderfynu ar y cyd rhwng holl aelodau'r Ymddiriedolaeth.

2. Yn hanesyddol mae'r Ymddiriedolwr wedi gweithredu gyda Chadeirydd ac Is-Gadeirydd ynghyd a thri o bwyllgorau sef,
   - Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau;
   - Pwyllgor Grantiau Cyffredinol;
   - Pwyllgor Adfywio.

3. Mater arall sydd angen sylw yw'r cwestiwn o gydbwysedd gwleidyddol ar y pwyllgorau. Yn y cyd-destun hwn mae'r aelodau wedi ceisio osgoi cyflwyno agweddau gwleidyddol yng ngweithrediadau'r Ymddiriedolaeth a'r disgwyl oedd bod pob aelod yn gwasanaethu ar un o'r tri phwyllgor.

4. Yn sgil yr uchod, a'r ffaith fod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno cais i newid strwythur llywodraethiant i Sefydliad Elusennol Corfforedig (SEC/CIO), argymhellir yn y tymor byr i barhau gyda'r trefniadau cyfredol gan gymryd y cyfle i adolygu'r strwythur pwyllgorau pan fo penderfyniad terfynol y Comisiwn Elusennol yn hysbys.

## 5. Argymhellion

Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd a thrwy hynny cadarnhau ei rôl yn awdurdodi gwariant.

Penodi aelodau i weithredu ar y pwyllgorau

- Buddsoddiadau a Chontractau;
- Grantiau Cyffredinol;
- Adfywio

gan weithredu'r egwyddorion gwleidyddol uchod.